Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanddeiniolen
7fed o Fai 2024

1. Croeso

Rhoddwyd croeso gan y Cadeirydd Y Cynghorydd Jane Pierce.

Ymddiheuriadau
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y cynghorwyr:
Lowri James. Gareth Hughes, Dawn Parry, Sasha Williams a Berwyn Parry Jones Griffiths

Presennol
Yn bresennol roedd Y Cadeirydd Jane Pierce, a'r Cynghorwyr Emma Chappell, Phyllis Ellis, Ynyr Parri. Idris Thomas, Elwyn Jones, Ellen George, Gareth Griffiths, Rhian Evans-Hill a Elfed Wyn Williams

Ni chafwyd presenoldeb, nag ymddiheuriad gan neb o'r cyhoedd eto eleni.

2. Gweddi
Rhoddwyd gair o weddi gan Idris Thomas

3. Sedd Wag
Nodwyd fod sedd wag o hyd yn Neiniolen a bod angen ceisio llenwi yn ystod y flwyddyn.

4. Ethol Cadeirydd am y Flwyddyn 2024 - 2025
Yn arferol bydd Cadeirydd penodedig yn y swydd am 2 flynedd. Felly bu I Jane Pierc gytuno I fod yn y gadair am yr ail flwyddyn.
Gyda Chadeirydd Etholedig yn y Gadair, diolchodd Jane am y cyfle, a'i bod yn edrych ymlaen at arwain y Cyngor eto eleni

5. Ethol Is-gadeirydd am y Flwyddyn 2024 - 2025
Cytunodd Ynyr Parri I gario mlaen fel is Gadeirydd am yr ail flwyddyn, ac mae yntau yn edrych ymlaen tuag at lenwi bwlch yn absenoldeb y Cadeirydd.

6. I gadarnhau swyddogion Pwyllgor Llwybrau Cyhoeddus
Cytunodd bawb I barhau y ar bwyllgor Llwybrau Cyhoeddus sef:
Ynyr Parri, Dawn Parry, Elwyn Jones, Ellen George, Idris Thomas a Jane Pierce.

Cadeirydd……..

7. I gadarnhau swyddogion gyda gofal am swydd y Clerc a Swyddog Ariannol
Swyddogion fydd yn gofalu am swyddogaeth y clerc yn parhau fel y Cynghorwyr Gareth Griffiths, Phyllis Ellis a Rhian Evans-Hill

8 I greu Unrhyw bwyllgor arall yn ôl doethineb Y Cyngor, ac i ethol swyddogion i'r pwyllgorau, os yn briodol.
Penderfynwyd fod angen Is Bwyllgor Cyllid, gan fod sawl peth angen yn enwedig Rheoliadau Ariannol, a ffordd rydym yn defnyddio gwasanaeth y banc. Cynigiwyd a phenodwyd:
Lowri James, Emma Chappell, Phyllis Ellis, Gareth Wyn Griffiths a Gareth Hughes

Elwyn Jones (1) Idris Thomas (2)

9. I gadarnhau cynrychiolydd ar Lywodraethwyr :

Ysgol Gynradd Gwaun Gynfi – Dawn Thomas
Ysgol Gynradd Penisa'r-waun - Phyllis Ellis
Ysgol Gynradd Bethel - Gareth Hughes .
Ysgol Rhiwlas - nid oes neb wedi bod ers tro gan nad oedd sedd i gynrychiolydd o 2 Gyngor Cymuned wahanol. Cyngor Cymuned Pentir sydd yn cynrychioli ar hyn o bryd, er mai ym mhlwyf Llanddeiniolen mae'r Ysgol.

10. I gadarnhau cynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd Un Llais Cymru
Penodwyd a chytunodd Ynyr Parri I fynychu'r cyfarfodydd hyn eleni.

9. I gadarnhau cynrychiolydd ar Barc Cenedlaethol Eryri
Rhian Evans-Hill yn fodlon parhau i gynrychiolydd ar Barc Cenedlaethol Eryri.

10. Neuadd Rhiwlas

Cytunodd Lowri Ann James I barhau yn cynrychioli'r Cyngor ar bwyllgor y Neuadd.

Cadeirydd……..

11. Adolygu Polisïau

Adolygwyd y Polisïau canlynol am y flwyddyn, ac arwyddwyd gan y Cadeirydd:

Polisïau a Chanllawiau'r Cyngor

Gweithdrefn Gwyno

Polisïau Cyfryngau Cymdeithasol

Datganiad Bio Amrywiaeth

Penderfynwyd mai swyddogaeth y Pwyllgor Cyllid fydd I adolygu y ddau bolisi isod cyn gynted a bod modd.

Cofrestr Rheoli Risg

Rheolau Ariannol

Daeth hyn a'r Cyfarfod Blynyddol i ben am eleni. Diolchwyd i bawb am ymrwymo i'w gwaith, ac am ffurfio is-bwyllgorau yn rhwydd.

Cadeirydd……..